Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 02/2023

Memorandwm ariannol

Cyfraddau cymorth myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24

Mehefin 2023

## Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio cyfraddau'r prif fenthyciadau a grantiau a'r rhai atodol, graddfeydd y cyfraniadau a chyfraddau'r ffioedd dysgu ar gyfer cymorth i israddedigion ac ôl-raddedigion ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Gall y cyfraddau hyn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ffigurau a nodir yn yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 neu'n hwyrach ble nodwyd hynny. Gweler fersiwn 2017/18 o'r ddogfen hon am gyfraddau cymorth i fyfyrwyr israddedig sy'n parhau ar gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012. Mae hon ar gael yma https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/on4b4lwe/welsh-government-2017_18-financial-memorandum.pdf

Mae'r cyfraddau hyn yn destun rheoliadau sydd wrthi'n cael eu llunio. Os bydd gwahaniaeth rhwng y rheoliadau a'r ddogfen hon, y rheoliadau sy'n drech.

Mae'r ddogfen hon ar gael gan https://llyw.cymru/cyllid-i-fyfyrwyr

## Termau

| | |
|---|---|
| Myfyriwr cohort 2012 | Myfyriwr a ddechreuodd gwrs llawn amser ar neu ar ôl 1 Awst 2012 |
| Myfyriwr cohort 2018 | Myfyriwr a ddechreuodd gwrs llawn amser ar neu ar ôl 1 Awst 2018 |
| Cwrs mynediad carlam i raddedigion | Cwrs nad yw'n para mwy na pedair blynedd sy'n arwain at gymhwyster fel meddyg neu ddeintydd. |
| Cyrsiau AGA | Cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon. |
| Darparwr cyffredin | Darparwr y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi gan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr. Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2017, a rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. |
| Darparwr preifat | Darparwr y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio eu pwerau yn y rheoliadau. Gweler rheoliad 5(8) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Cymru) 2017, a rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. |
| CMC | Cyllid Myfyrwyr Cymru |
| Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (a elwir hefyd yn Taith) | Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Taith sy'n ariannu cyfleoedd rhyngwladol i ddarparwyr addysg ac ieuenctid yng Nghymru. Mae'n cefnogi cyfleoedd cyfnewid allanol a mewnol i fyfyrwyr a staff. |
| Turing | Mae Cynllun Turing yn rhaglen Llywodraeth y DU i ddarparu arian ar gyfer cyfleoedd rhyngwladol allanol mewn addysg a hyfforddiant. |
| *Lleoliad y myfyriwr (cohort 2018)* | |
| Cartref rhiant | Mae'r myfyriwr yn byw yng nghartref ei riant wrth ddilyn y cwrs cyfredol. |
| Llundain | Mae'r myfyriwr yn byw i ffwrdd o gartref ei riant tra fydd yn (ii) dilyn cwrs ym Mhrifysgol Llundain, (ii) |

| | |
|---|---|
| | yn dilyn cwrs mewn sefydliad sy'n gofyn am bresenoldeb yn y flwyddyn academaidd ar safle sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Llundain ble mae o leiaf hanner unrhyw chwarter o'r cwrs yn cael ei ddarparu mewn safle o'r fath, neu (iii) yn dilyn cwrs rhyngosod yn y flwyddyn academaidd mewn sefydliad sy'n gofyn i'r myfyrwyr gwblhau profiad gwaith, neu gyfuniad o brofiad gwaith ac astudio, yn Llundain lle mae'r profiad gwaith hwnnw neu gyfuniad o brofiad gwaith ac astudio, yn cael ei wneud am o leiaf hanner unrhyw chwarter. |
| Rhywle arall | Mae'r myfyriwr yn byw i ffwrdd o gartref ei riant ond nid yw'n astudio yn Llundain, yn cynnwys mynychu sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel rhan o gwrs y myfyriwr neu'n cwblhau lleoliad gwaith tramor mewn blwyddyn ERASMUS+ / TURING / ILE (a elwir yn TAITH). |

# Trosolwg

**Adran A** ........................................................................................................9
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser

**Adran B** ......................................................................................................15
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser

**Adran C** ......................................................................................................23
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser

**Adran D**......................................................................................................27
Grant Myfyrwyr Anabl

**Adran E** ......................................................................................................28
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser

**Adran F**.......................................................................................................31
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser

**Adran G** ......................................................................................................32
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG

**Adran H** ......................................................................................................36
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig

**Adran I**........................................................................................................38
Tablau enghreifftiol

# Tabl Cynnwys


Cyflwyniad .... 2

Termau .... 3

Trosolwg .... 5

Tabl Cynnwys .... 6

Rhestr tablau .... 7

Adran A .... 9

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser .... 9

A1: Cymorth ffioedd .... 9

A2: Cymorth cynhaliaeth .... 11

Adran B .... 15

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser .... 15

B1: Cymorth ffioedd .... 15

B2: Cymorth cynhaliaeth .... 17

Adran C .... 23

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser .... 23

C1: Benthyciadau ffioedd ar ôl 1 Medi 2014 .... 23

C2: Grantiau ffioedd cyn 1 Medi 2014 .... 23

C3. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2018 .... 24

C4. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2014 .... 25

C5. Cyrsiau AGA rhan-amser .... 26

Adran D .... 27

Grant Myfyrwyr Anabl .... 27

Adran E .... 28

Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser .... 28

E1: Benthyciadau cynhaliaeth uwch ar gyfer blynyddoedd estynedig .... 28

E2: Grantiau i Ddibynyddion .... 28

E3: Grant Teithio .... 30

Adran F .... 31

Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser .... 31

F1: Grantiau i Ddibynyddion .... 31

Adran G .... 33

Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG .... 33

G1: Meddygaeth a deintyddiaeth ........ 33
G2: Nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ........ 35
Adran H ........ 37
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig ........ 37
H1: Cwrs meistr ........ 37
H2: Doethurol ........ 38
Adran I ........ 39
Tablau eglurhaol ........ 39

## Rhestr tablau

Tabl 1: Cyfraddau benthyciad ffioedd, cohort 2018 ........ 9
Tabl 2: Swm cymwys o gymorth byw ........ 13
Tabl 3: Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael ........ 13
Tabl 4: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2018 ........ 14
Tabl 5: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2012 ........ 18
Tabl 6: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr na aseswyd eu hincwm, cohort 2012 ........ 19
Tabl 7: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, ar ôl 1 Medi 2014 ........ 23
Tabl 8: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, cyn 2014 ........ 23
Tabl 9: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer astudio'n rhan-amser, myfyrwyr 2014 ........ 25
Tabl 10: Benthyciad cynhaliaeth ychwanegol mewn blynyddoedd estynedig ........ 28
Tabl 11: Diystyru incwm ar gyfer Grantiau i Ddibynyddion ........ 29
Tabl 12: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd) ........ 33
Tabl 13: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd) ........ 34
Tabl 14: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd) ........ 34
Tabl 15: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd) ........ 35
Tabl 16: Benthyciadau cyfradd is i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n astudio yng Nghymru ........ 36
Tabl IT1: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd) ........ 39
Tabl IT2: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth i'r rhai sy'n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd) ........ 40
Tabl IT3: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) ........ 41

Tabl IT4: Hawl i grant cymorth arbennig a benthyciad yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) ........ 42

Tabl IT5: Asesiad o gyfraniad aelwyd yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) ........ 43

Tabl IT6: Hawl myfyrwyr rhan-amser i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm a dwysedd astudio, cohort 2018 (£oedd) ........ 44

Tabl IT7: Hawl myfyrwyr cyrsiau Meistr ôl-raddedig i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm (£oedd) ........ 45

# Adran A

## Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser

### A1: Cymorth ffioedd

Gall myfyrwyr llawn amser sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dechrau eu cyrsiau addysg uwch ar neu ar ôl 1 Awst 2018 fod yn gymwys am fenthyciad ffioedd (tabl 1). Nid yw'r benthyciad ffioedd yn dibynnu ar brawf modd.

**Tabl 1: Cyfraddau benthyciad ffioedd, cohort 2018**

| | Uchafswm benthyciad ffioedd (£) |
|---|---|
| Darparwr cyffredin | 9,250 |
| Darparwr preifat | 6,165 |

Bydd lefel y ffi y mae disgwyl i fyfyrwyr ei thalu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Y ffi uchaf y gall darparwyr addysg uwch cyffredin ei chodi yn 2023/24 yw £9,000 yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU. Nodwch nad oes rhaid i ddarparwyr preifat gydymffurfio â chapiau ffioedd. Y ffi uchaf ar gyfer cyrsiau gradd carlam yn Lloegr yw £11,100. Fodd bynnag, gellir ond cael hyd at £9,250 o fenthyciad ffioedd a bydd rhaid i'r myfyriwr dalu'r gweddill. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gradd carlam a myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr nad oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r cap ffioedd.

**Cymorth ffioedd uchaf mewn achosion arbennig**

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol symiau o gymorth ffioedd mewn rhai achosion.

*Blwyddyn olaf*

Bydd y benthyciad ffioedd dysgu uchaf sydd ar gael yn gostwng ym mlwyddyn academaidd olaf cyrsiau lle mae dyddiad diwedd y cwrs yn gynt a'r myfyriwr yn gorfod astudio am lai o amser (llai na 15 wythnos o astudio). Bydd hyd at £4,625 o fenthyciad ffioedd dysgu ar gael ar gyfer cyrsiau o'r fath mewn darparwr cyffredin lle gellir codi hyd at £9,250, a hyd at £3,080 ar gael i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn sefydliad preifat. Pan fydd y ffioedd uchaf yn £9,000, bydd y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau o'r fath yn £4,500 i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn darparwr cyffredin.

*Myfyrwyr mewn darparwyr yng Nghymru a Lloegr*

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n cwblhau blwyddyn astudio dramor y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING/ILE (TAITH) yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn astudio ar gwrs dynodedig yn gallu derbyn cymorth ffioedd hyd at uchafswm y ffioedd dysgu a godir (£1,350 lle mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £1,385 lle mae'n £9,250). Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £920[1].

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n treulio blwyddyn dramor yn astudio neu'n gweithio o fewn cynllun ERASMUS+/TURING/ILE (TAITH) yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig yn gallu derbyn cymorth ffioedd hyd at uchafswm y ffioedd dysgu a godir (£1,350[2] lle mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £1,385[3] lle mae'n £9,250). Nid yw sefydliadau preifat yn cymryd rhan yng nghynllun ERASMUS. Mae darparwyr yn Lloegr sydd naill ai wedi cofrestru ar gofrestr y Swyddfa Myfyrwyr neu sydd wedi cydnabod Pwerau Dyfarnu Graddau yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun TURING. Mae darparwyr cydnabyddedig neu reoledig a sefydliadau preifat yng Nghymru yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun ILE (TAITH).

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 20% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn benthyciad ffioedd dysgu hyd at uchafswm y ffi dysgu a godir (£1,800 a £1,850, ble mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £9,250, yn y drefn honno). Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £1,230[4].

*Myfyrwyr mewn darparwyr yn yr Alban*

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr cyffredin yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn dramor yn astudio neu'n gweithio y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 50% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn benthyciad ffioedd o hyd at £4,625 ar gyfer y ffi dysgu a godir. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080 (Categori 4).

---

[1] £920 yw 15% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.
[2] £1,350 yw 15% o £9,000 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.
[3] £1,385 yw 15% o £9,250 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.
[4] £1,230 yw 20% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr cyffredin yn yr Alban sy’n treulio blwyddyn dramor yn astudio neu’n gweithio o fewn cynllun ERASMUS+/TURING yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn benthyciad ffioedd o hyd at £1,385 ar gyfer y ffioedd dysgu a godir. Nid yw sefydliadau preifat yn cymryd rhan yng nghynllun ERASMUS+/TURING (Categori 6).

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr yn yr Alban sy’n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn 2023/24, yn gallu derbyn benthyciad ffioedd dysgu hyd at £4,625 (50% o uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu). Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080 (Categori 3).

*Myfyrwyr mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon*

Bydd myfyrwyr cohort 2018 ar gyrsiau mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy’n treulio rhan o flwyddyn dramor ar leoliad astudio neu waith y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING (mae darparwyr Gogledd Iwerddon yn hepgor ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS+/TURING ac nid oes angen cymorth ffioedd) yn gallu cael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £4,625. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy’n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn 2023/24, yn gallu cael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £4,625. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

*Myfyrwyr sy’n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion yn y DU*

Mae myfyrwyr sy’n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion mewn darparwr cyffredin yn y DU yn gymwys am fenthyciad ffioedd o hyd at £5,785.

## A2: Cymorth cynhaliaeth

Mae gan fyfyrwyr sy’n dechrau eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 hawl i gael cymorth cynhaliaeth ar gyfer costau byw ac astudio drwy gyfrwng grant sylfaenol, grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth.

Yn amodol ar rai eithriadau, gall myfyrwyr llawn amser fod yn gymwys am grant sylfaenol nad yw’n dibynnu ar brawf modd o £1,000.

Mae'r grant cynhaliaeth ar gael i'r rhai sydd ag incwm aelwyd o hyd at £59,200. Mae uchafswm y grant ar gael i'r rhai sydd ag incwm aelwyd o £18,370 neu is. Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a'r gweddill rhwng benthyciad a grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac astudio, a'i incwm aelwyd, fel a ganlyn.

- Gall myfyrwyr sy'n byw gartref dderbyn hyd at £9,950 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £6,885 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £6.937 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £9,950 fel benthyciad.

- Gall myfyrwyr sy'n byw oddi cartref, yn Llundain, dderbyn hyd at £14,635 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £10,124 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £4.475 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £14,635 fel benthyciad.

- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £11,720 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £8,100 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £5.750 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £11,720 fel benthyciad.

Mae tabl IT1 yn adran I yn dangos symiau'r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

**Taliad Cymorth Arbennig**

Ni fydd rhan o'r cymorth gan Lywodraeth Cymru a roddir i fyfyrwyr sy'n derbyn rhai budd-daliadau penodol yn cael ei hystyried at ddiben cyfrifo eu hincwm wrth wneud cais am y budd-daliadau hynny.

Mae'r myfyrwyr cymwys yn cynnwys y rhai:

- sydd â phlant dibynnol ond nad oes ganddynt bartner;
- sydd â phlant dibynnol a bod eu partner yn fyfyriwr llawn amser hefyd;
- sy'n gymwys am rai budd-daliadau anabledd penodol.

Mae'r broses o gyfrifo hawl yn gymhleth. Mae'r rheoliadau'n cynnwys dau dabl er mwyn gallu cyfrifo symiau.

**Tabl 2: Swm cymwys o gymorth byw, cohort 2018**

| Blwyddyn academaidd | Lleoliad y myfyriwr | Swm cymwys o gymorth byw i fyfyriwr cymorth arbennig (£) |
|---|---|---|
| Yn dechrau ar neu ar ôl 2018 | Byw gartref | 9,950 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | 14,635 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | 11,720 |

**Tabl 3: Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cymorth arbennig, cohort 2018**

| Blwyddyn academaidd | Lleoliad y myfyriwr | Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cymorth arbennig (£) |
|---|---|---|
| Yn dechrau ar neu ar ôl 2018 | Byw gartref | 4,475 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | 6,815 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | 5,360 |

Mae tabl IT2 yn adran I yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

**Benthyciadau cynhaliaeth cyfradd is**

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth is yn unig (a chymorth grant fel y disgrifiwyd uchod). Y rhain yw:

- myfyrwyr ar leoliadau cwrs rhyngosod blwyddyn lawn â thâl lle mae'r cyfnodau o astudiaeth lawn amser yn llai na 10 wythnos i gyd;
- myfyrwyr sy'n gymwys am fwrsarïau'r GIG sy'n dibynnu ar brawf modd neu lwfansau Gofal Iechyd yr Alban sy'n dibynnu ar brawf modd (gweler adran F).

Mae'r cyfraddau wedi'u nodi yn nhabl 4. Mae'r gyfradd is yn Nhabl 4 yn hanner y gyfradd lawn wedi'i talgrynnu i lawr i'r £5 cyfan agosaf.

**Tabl 4: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2018**

| | Cyfradd is (£) | Cyfradd lawn (£) |
|---|---|---|
| Cartref rhiant | 4,475 | 8,950 |
| Llundain | 6,815 | 13,635 |
| Rhywle arall | 5,360 | 10,720 |

### Didyniad plentyn dibynnol

Efallai y bydd swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrif incwm yr aelwyd i'w ystyried ar gyfer pennu lefel y grant cynhaliaeth. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r aelwyd yn cynnwys plentyn dibynnol heblaw'r myfyriwr.

Gellir diystyru £1,130 wrth gyfrif incwm aelwyd myfyrwyr cohort 2018 llawnamser.

# Adran B

## Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser

### B1: Cymorth ffioedd

Bydd lefel y ffioedd y bydd disgwyl i fyfyrwyr llawn amser sy'n fyfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau addysg uwch yn 2023/24 eu talu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Bydd myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi ffi o hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £5,035 i dalu rhan o'u ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Bydd y rhai sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi ffi o hyd at £9,000 yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £4,785, i dalu rhan o'u ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Bydd y myfyrwyr hyn hefyd yn gymwys i wneud cais am grant ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £4,215. Nid oes rhaid ad-dalu'r grant ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd.

Bydd myfyrwyr llawn amser a fydd yn fyfyrwyr cohort 2012 mewn addysg uwch yn 2023/24 ac sy'n astudio cyrsiau dynodedig penodol mewn sefydliad preifat yn gallu cael benthyciad nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £6,165 i dalu rhan o gostau'r ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Nid oes grant ffioedd ar gael ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat.

Bydd lefel y ffioedd y mae disgwyl i fyfyrwyr eu talu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Y ffi uchaf y gall darparwyr addysg uwch ei chodi yn 2023/24 yw £9,000 yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU.

*Myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion yn y DU*

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion mewn darparwr cyffredin yn y DU yn gymwys am fenthyciad ffioedd o hyd at £5,785.

**Cymorth ffioedd uchaf mewn achosion arbennig**

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol symiau o gymorth ffioedd mewn rhai achosion.

*Blwyddyn olaf*

Bydd uchafswm y cymorth ffioedd dysgu sydd ar gael yn cael ei leihau i hanner y gyfradd lawn wedi'i talgrynnu i lawr i'r £5 cyfan agosaf yn ystod blwyddyn

academaidd olaf cyrsiau sy'n gofyn am lai o astudio mewn darparwyr cyffredin a phreifat. Bydd hyd at £4,625 o gymorth ffioedd dysgu ar gael ar gyfer cyrsiau o'r fath mewn darparwr cyffredin sy'n codi £9,250 (benthyciad ffioedd o hyd at £2,450 a grant ffioedd o hyd at £2,175) a benthyciad ffioedd o hyd at £3,080 ar gyfer y rhai sy'n cael eu darparu mewn sefydliad preifat. Pan fydd y ffioedd uchaf yn £9,000, bydd y cymorth ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau o'r fath yn £4,500 i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn darparwr cyffredin (benthyciad ffioedd o hyd at £2,325 a grant ffioedd o hyd at £2,175).

*Myfyrwyr mewn darparwyr yng Nghymru neu Loegr*

Bydd myfyrwyr cohort 2012 sy'n cwblhau blwyddyn ar leoliad dramor (naill ai'n astudio neu'n gweithio fel rhan o gynllun ERASMUS+/TURING/ILE (TAITH), ac ar leoliad astudio y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING/ILE (TAITH)) yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am hyd at £710 o fenthyciad ffioedd a £675 o grant ffioedd, cyfanswm o £1,385. Os yw uchafswm y ffioedd yn £9,000, gall myfyriwr wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £675 a grant ffioedd o hyd at £675, cyfanswm o £1,350. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING/ILE mewn sefydliad preifat yn £920[5].

Bydd myfyrwyr cohort 2012 sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 20% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am hyd at £950 o fenthyciad ffioedd a £900 o grant ffioedd, cyfanswm o £1,850. Os yw uchafswm y ffioedd yn £9,000, gall myfyriwr wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £900 a grant ffioedd o hyd at £900, cyfanswm o £1,800. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £1,230[6].

*Myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr yn yr Alban*

Bydd myfyrwyr cohort 2012 mewn darparwyr yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn ar leoliad dramor (naill ai'n astudio neu'n gweithio o fewn cynlluniau ERASMUS+/ TURING) yn gorfod talu ffioedd dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr (hyd at £1,385). Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn cymorth ffioedd o hyd at y ffi dysgu uchaf a godir sy'n cynnwys benthyciad ffioedd o £710 a grant ffioedd o £675.

---

[5] £920 yw 15% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf

[6] £1,230 yw 20% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

Bydd myfyrwyr cohort 2012 mewn darparwyr yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith rhyngosod neu leoliad astudio neu waith y tu allan i gynlluniau ERASMUS+/TURING yn 2023/24, yn parhau i allu manteisio ar drefniadau cymorth myfyrwyr a oedd yn weithredol yn 2014/15. Y cymorth ffioedd dysgu uchaf fydd ar gael i'r myfyrwyr hyn fydd £4,625. Bydd hyn yn cynnwys benthyciad ffioedd o £2,450 a grant ffioedd o £2,175. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

*Myfyrwyr mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon*

Bydd myfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n cwblhau rhan o flwyddyn dramor ar gyfer lleoliad astudio neu waith (y tu allan i gynllun ERASMUS+/TURING, gan fod darparwyr Gogledd Iwerddon yn hepgor ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS+/TURING) neu flwyddyn o leoliad gwaith rhyngosod yn 2023/24 yn gallu cael yr uchafswm cymorth ffioedd o £4,625. Mae hyn yn cynnwys benthyciad ffioedd o £2,450 a grant ffioedd o £2,175. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

## B2: Cymorth cynhaliaeth

Mae gan fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser hawl i gael cymorth cynhaliaeth drwy gyfrwng grant a benthyciad. Bydd myfyrwyr yn gallu gwneud cais am:

- grant sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer costau byw, hyd at £5,161;
- benthyciad, gyda 75% ohono ddim yn dibynnu ar asesiad incwm.

Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn hytrach na'r grant cynhaliaeth. Mae uchafswm y cymorth y mae myfyrwyr sydd ac sydd ddim yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn wahanol.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac astudio, ac incwm yr aelwyd.

### Benthyciadau cynhaliaeth

Mae cyfraddau benthyciadau wedi'u nodi yn nhabl 5.

Bydd uchafswm y benthyciad yn cael ei leihau 50c am bob £1 o grant cynhaliaeth a dderbynnir, hyd at uchafswm o £2,580 o ostyngiad.

*Benthyciadau cyfraddau is*

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth is yn unig (a chymorth grant fel y disgrifiwyd uchod) Y rhain yw:

- myfyrwyr ar leoliadau cwrs rhyngosod blwyddyn lawn â thâl lle mae'r cyfnodau o astudiaeth lawn amser yn llai na 10 wythnos i gyd;
- myfyrwyr sy'n gymwys am fwrsarïau'r GIG sy'n dibynnu ar brawf modd yng Nghymru a Lloegr, neu lwfansau Gofal Iechyd yr Alban sy'n dibynnu ar brawf modd (gweler adran F).

*Benthyciadau blwyddyn olaf*

Mae myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs yn gymwys am wahanol gyfraddau i flynyddoedd eraill. Mae cyfraddau is ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf yn cael eu haddasu'n briodol.

**Tabl 5: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2012**

| Cyfraddau uchaf benthyciad blwyddyn lawn | Cyfradd is (£) | Cyfradd lawn (£) |
|---|---|---|
| Cartref rhiant | 2,980 | 6,277 |
| Llundain | 5,585 | 11,357 |
| Rhywle arall | 3,973 | 8,108 |
| Tramor | 4,752 | 9,667 |
| **Cyfraddau uchaf benthyciad blwyddyn olaf** | **Cyfradd is (£)** | **Cyfradd lawn (£)** |
| Cartref rhiant | 2,265 | 5,683 |
| Llundain | 4,271 | 10,342 |
| Rhywle arall | 3,096 | 7,511 |
| Tramor | 3,474 | 8,408 |

*Myfyrwyr na aseswyd eu hincwm*

Mae myfyrwyr nad ydynt yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd yn gymwys am wahanol gyfraddau o fenthyciad. Mae Tabl 6 yn darparu'r cyfraddau hyn, y cyfraddau 'heb asesu incwm'. Mae Tabl 6 hefyd yn nodi cyfradd y prif fenthyciad a'r benthyciad ychwanegol sy'n gymwys i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth i gyfrif incwm aelwyd.

**Tabl 6: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr na aseswyd eu hincwm, cohort 2012**

| Myfyrwyr llawn amser | Heb asesu incwm* (£) | Wedi asesu incwm† (£) | Cyfradd lawn (£) |
|---|---|---|---|
| Cartref rhiant | 4,708 | 1,569 | 6,277 |
| Llundain | 8,518 | 2,839 | 11,357 |
| Rhywle arall | 6,081 | 2,027 | 8,108 |
| Tramor | 7,250 | 2,417 | 9,667 |

| Myfyrwyr blwyddyn olaf | Heb asesu incwm* (£) | Wedi asesu incwm† (£) | Cyfradd lawn (£) |
|---|---|---|---|
| Cartref rhiant | 4,262 | 1,421 | 5,683 |
| Llundain | 7,757 | 2,585 | 10,342 |
| Rhywle arall | 5,633 | 1,878 | 7,511 |
| Tramor | 6,306 | 2,102 | 8,408 |

* 75% o'r gyfradd lawn, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.
† 25% o'r gyfradd lawn.

### Grantiau cynhaliaeth

*Swm y grant*

Y grant cynhaliaeth uchaf sydd ar gael yw £5,161, waeth ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio, ac incwm yr aelwyd. Mae uchafswm y cymorth cynhaliaeth ar gael i fyfyrwyr ag incwm aelwyd o hyd at £18,370.

- Gall myfyrwyr sy'n byw yng nghartref rhiant dderbyn hyd at £8,858 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

- Gall myfyrwyr sy'n byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain, dderbyn hyd at £13,938 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

- Gall myfyrwyr sy'n byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £10,689 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

Bydd swm y benthyciad y mae myfyrwyr yn gymwys iddo yn cael ei leihau 50c am bob £1 o grant y mae ganddynt hawl iddo. Y gostyngiad mwyaf i'r benthyciad yn seiliedig ar grant fydd £2,580.

Yn achos incwm rhwng £18,371 a £26,500, bydd grant cynhaliaeth yn cael ei leihau £1 am bob £3.653 cyflawn o incwm sy'n uwch na £18,370. Yn achos incwm rhwng £26,501 a £34,000, bydd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £4.180 cyflawn o incwm sy'n uwch na £26,500. Yn achos incwm rhwng £34,001 a £50,020, mae'r grant yn lleihau £1 am bob £14.67 cyflawn o incwm sy'n uwch na £34,000.

Bydd myfyriwr ag incwm o £50,020 yn gymwys am yr isafswm grant o £50. Ni fydd myfyriwr sydd ag incwm o dros £50,020 yn gymwys am unrhyw grant. Pan fo incwm y myfyriwr yn fwy na £50,753, bydd swm y benthyciad y mae ganddo hawl iddo yn lleihau £1 am bob £5 cyflawn o incwm sy'n uwch na £50,753 nes bod 75% o'r benthyciad cynhaliaeth llawn yn weddill.

Mae tabl IT3 yn adran I yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

*Grant Cymorth Arbennig*

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn hytrach na grant cynhaliaeth. Y rhain yw myfyrwyr:

- sydd â phlant dibynnol ond nad oes ganddynt bartner;
- sydd â phlant dibynnol a bod eu partner yn fyfyriwr llawn amser hefyd;
- sy'n gymwys am rai budd-daliadau anabledd penodol.

Mae myfyrwyr sy'n gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn gymwys am gyfraddau uwch o gymorth benthyciad na'r rhai nad ydynt yn gymwys, sy'n golygu bod eu lefel cymorth cyffredinol yn uwch hefyd.

Y Grant Cymorth Arbennig uchaf sydd ar gael yw £5,161, waeth ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae'r swm uchaf ar gael i bob myfyriwr cymwys sydd ag incwm aelwyd o hyd at £18,370.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r Grant Cymorth Arbennig yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio, ac incwm yr aelwyd fel a ganlyn.

- Gall myfyrwyr sy’n byw yng nghartref eu rhieni dderbyn hyd at £11,438 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

- Gall myfyrwyr sy’n byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain, dderbyn hyd at £16,518 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

- Gall myfyrwyr sy’n byw oddi cartref ac yn astudio y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £13,269 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

Yn achos incwm rhwng £18,371 a £26,500, bydd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £3.653 cyflawn o incwm sy’n uwch na £18,370. Yn achos incwm rhwng £26,501 a £34,000, byddd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £4.180 cyflawn o incwm sy’n uwch na £26,500. Yn achos incwm rhwng £34,001 a £50,020, mae’r grant yn lleihau £1 am bob £14.67 cyflawn o incwm sy’n uwch na £34,000.

Bydd myfyriwr ag incwm o £50,020 yn gymwys am yr isafswm grant o £50. Ni fydd myfyriwr sydd ag incwm o dros £50,020 yn gymwys am unrhyw grant. Pan fo incwm y myfyriwr yn fwy na £50,753, bydd swm y benthyciad y mae ganddo hawl iddo yn lleihau £1 am bob £5 cyflawn o incwm sy’n uwch na £50,753 nes bod 75% o’r benthyciad cynhaliaeth llawn yn weddill.

Mae tabl IT4 yn adran I yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

**Myfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau AGA**

Bydd y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau AGA yn dibynnu ar a yw’r cwrs yn un llawn amser neu’n rhan-amser. Mae’r grant cynhaliaeth a’r Grant Cymorth Arbennig yn dibynnu ar brawf modd llawn i bob myfyriwr sy’n dechrau astudio’n llawn amser ar neu ar ôl 1 Medi 2010.

Mae myfyrwyr cohort 2012 sydd ar gwrs AGA rhan-amser, yn cynnwys y ddarpariaeth hyblyg a ddarperir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, yn gymwys am y pecyn cymorth myfyrwyr rhan-amser safonol a nodwyd yn adran C.

**Cyfraniadau aelwyd**

Bydd cyfraniadau’n cael eu cyfrif fel a ganlyn:

- Incwm aelwyd o £50,753 neu lai: dim cyfraniad.

- Incwm aelwyd o rhwng £50,753 a £81,793: cyfraniad o £1 am bob £5 ychwanegol o incwm aelwyd.
- Incwm aelwyd o dros £81,793: cyfraniad o £6,208.

Y cyfraniad uchaf posibl yw £6,208.

Mae tabl IT5 yn adran I yn dangos symiau cyfraniadau aelwyd.

**Didyniad plentyn dibynnol**

Efallai y bydd swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrif incwm yr aelwyd i'w ystyried ar gyfer pennu lefel y grant cynhaliaeth. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r aelwyd yn cynnwys plentyn dibynnol heblaw'r myfyriwr.

Gellir diystyru £1,130 wrth gyfrif incwm aelwyd myfyrwyr cohort 2012 llawn amser.

# Adran C

## Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser

### C1: Benthyciadau ffioedd ar ôl 1 Medi 2014

Mae'r benthyciadau ffioedd uchaf ar gyfer cyrsiau a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2014 wedi'u nodi yn nhabl 7.

**Tabl 7: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, ar ôl 1 Medi 2014**

| | £ |
|---|---|
| Myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru | |
| Mewn darparwyr cyffredin | |
| Darparwyr yng Nghymru | 2,625 |
| Y Brifysgol Agored | 2,625 |
| Darparwyr eraill yn y DU | 6,935 |
| Mewn sefydliadau preifat | |
| Sefydliadau yng Nghymru | 2,625 |
| Sefydliadau eraill yn y DU | 4,625 |
| Myfyrwyr yr UE ar gyrsiau mewn darparwyr yng Nghymru | 2,625 |

### C2: Grantiau ffioedd cyn 1 Medi 2014

Mae grantiau ffioedd i'r rhai a ddechreuodd gwrs cyn Medi 2014 yn dibynnu ar ddwysedd yr astudiaeth ac incwm aelwyd, fel a ganlyn. Hefyd, mae myfyrwyr sy'n dechrau cwrs cyn Medi 2014 yn gymwys i grant cwrs, gweler Tabl 9.

**Tabl 8: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, cyn 2014**

| Incwm aelwyd | Dwysedd astudio | | |
|---|---|---|---|
| | Hyd at 60% (£) | 60–74% (£) | 75% a mwy (£) |
| Llai na £16,865 | 690 | 820 | 1,025 |
| £16,865 | 640 | 770 | 975 |
| £16,865–£25,434 | Gweler nodyn 1. | | |
| £25,435 | 50 | 50 | 50 |
| Mwy na £25,435 | 0 | 0 | 0 |

Nodyn 1.

Gydag incwm aelwyd o £16,865 i £25,434

- astudio ar ddwysedd o hyd at 60% – £640 gyda £1 yn llai am bob £14.52 o incwm dros £16,865
- astudio ar ddwysedd o 60–74% – £770 gyda £1 yn llai am bob £11.90 o incwm dros £16,865
- astudio ar ddwysedd o 75% neu fwy – £975 gyda £1 yn llai am bob £9.26 o incwm dros £16,865

**Didyniad incwm**

Mae didyniadau incwm yn berthnasol i fyfyrwyr sydd â phartneriaid a phlant dibynnol:

- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer myfyriwr sydd â phartner;
- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer y plentyn dibynnol cyntaf, a £1,000 ar gyfer pob plentyn wedi hynny.

## C3. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2018

Mae gan fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 hawl i gael cymorth cynhaliaeth drwy gyfrwng grant sylfaenol, grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Mae gan bob myfyriwr cymwys hawl i gael grant sylfaenol nad yw'n dibynnu ar brawf modd, a bydd y swm yn dibynnu ar ddwysedd yr astudiaeth. Mae hyn yn seiliedig ar yr isafswm o £1,000 sydd ar gael i fyfyrwyr llawn amser, felly byddai myfyriwr rhan-amser sy'n astudio ar ddwysedd o 50 y cant yn derbyn grant sylfaenol o £500.

Mae swm y grant a'r benthyciad cynhaliaeth yn dibynnu ar ddwysedd yr astudio ac incwm yr aelwyd. Yn 2023/24, mae'r cymorth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn seiliedig ar swm cyfwerth ag amser llawn o £8,650, wedi'i dalu pro-rata ar sail dwysedd yr astudio. Fodd bynnag, i gael ei ddosbarthu fel cwrs rhan-amser, ystyrir mai uchafswm yr oriau astudio yw 75 y cant o'r rhai ar gwrs llawn amser (h.y. dwysedd o 75 y cant). Felly, y swm uchaf o fenthyciad a grant cyfunol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yw 75 y cant o £8,650, sef £6,488.

Mae swm y grant yn seiliedig ar swm cyfwerth ag amser llawn o £6,000, wedi'i leihau £1 am bob £6.84 ychwanegol o incwm dros £25,000, ac wedi'i dalu pro-rata ar sail

dwysedd yr astudio. Mae’r grant uchaf posibl, felly, yn £4,500, yn seiliedig ar ddwysedd astudio o 75%. Fel yn achos myfyrwyr llawn amser, gall benthyciad wneud iawn am y swm a gollir fel hyn.

Yn achos myfyrwyr sy’n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig, bydd unrhyw grant cynhaliaeth y byddant yn ei dderbyn yn cael ei ddynodi felly.

Mae tabl IT6 yn adran I yn dangos symiau’r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

## C4. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2014

Mae myfyrwyr rhan-amser ac sy’n dysgu o bell yn rhan-amser (astudio ar ddwysedd o 50% neu fwy), a ddechreuodd eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Medi 2014 a chyn 1 Awst 2018, yn gymwys am grant cynhaliaeth o hyd at £1,155 ar gyfer llyfrau, teithio a gwariant arall sy’n gysylltiedig â’u cwrs (‘grant y cwrs’). Mae’r grant hwn yn cael ei asesu ar sail incwm, gyda swm y grant yn lleihau £1 am bob £1.886 o incwm cyfrifiadwy sy’n uwch na £26,095.

Mae myfyrwyr sy’n dysgu o bell yn rhan-amser a ddechreuodd eu cwrs cyn 1 Medi 2012 yn gymwys am y grant hwn. (Mae myfyrwyr sy’n dysgu o bell yn llawn amser a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn gymwys am y pecyn cymorth ffioedd llawn amser (gweler adran A neu B).)

**Tabl 9: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer astudio’n rhan-amser, myfyrwyr 2014**

| Incwm | Hawl i grant |
|---|---|
| £26,095 ac is | £1,155 |
| £26,096 i £28,179 | £1,155 gyda £1 yn llai am bob £1.886 o incwm dros £26,095 |
| £28,180 | £50 |
| £28,181 a throsodd | Dim cymorth |

### Didyniad incwm

Mae didyniadau incwm yn berthnasol i fyfyrwyr sydd â phartneriaid a phlant dibynnol:

- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer myfyriwr sydd â phartner;
- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer y plentyn dibynnol cyntaf, a £1,000 ar gyfer pob plentyn wedi hynny.

## C5. Cyrsiau AGA rhan-amser

Mae myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs AGA rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2014 a chyn 1 Medi 2018 yn gymwys am y cymorth ffioedd a ddisgrifiwyd yn adran C1 a'r cymorth cynhaliaeth a nodwyd yn adran C4.

Mae'r rhai a ddechreuodd gwrs AGA rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2018 yn gymwys am y cymorth ffioedd a ddisgrifiwyd yn adran C1 a'r cymorth cynhaliaeth a nodwyd yn adran C3.

# Adran D

## Grant Myfyrwyr Anabl

Gall myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, sy'n astudio'n llawn-amser neu'n rhan-amser, fod yn gymwys i gael grant i’w cynorthwyo â gwariant ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad uniongyrchol i'w anabledd. Nid yw'n seiliedig ar brawf modd nac wedi'i raddio'n seiliedig ar ddwysedd yr astudio. Uchafswm y grant yn 2023/24 fydd £33,146 ac mae'n cwmpasu'r meysydd gwariant canlynol:

- Cynorthwyydd personol nad yw'n feddygol;
- Eitemau mawr o offer arbenigol;
- Gwariant arall sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Bydd lwfans teithio ar wahân sydd heb ei gapio hefyd ar gael i fyfyrwyr sy'n ysgwyddo costau teithio ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio oherwydd eu hanabledd.

# Adran E

## Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser

Mae’r cymorth hwn ar gael i bob myfyriwr llawn amser a ddechreuodd eu cwrs ar ôl 1 Medi 2012.

### E1: Benthyciadau cynhaliaeth uwch ar gyfer blynyddoedd estynedig

Mae benthyciad cynhaliaeth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr llawn amser ar gyfer astudio mewn blynyddoedd academaidd sy’n para mwy na 30 wythnos a 3 diwrnod.

**Tabl 10: Benthyciad cynhaliaeth ychwanegol mewn blynyddoedd estynedig**

| | Benthyciad ychwanegol yr wythnos (£) |
|---|---|
| Cartref rhiant | 93 |
| Llundain | 179 |
| Rhywle arall | 141 |
| Tramor* | 196 |

* Mae’r gyfradd dramor ond yn berthnasol i fyfyrwyr cohort 2012. Mae myfyrwyr cohort 2018 sy’n astudio dramor yn gymwys am y gyfradd ‘astudio’n rhywle arall’.

Nid yw myfyrwyr sy’n gymwys am gyfradd is y benthyciad yn gymwys am swm ychwanegol.

### E2: Grantiau i Ddibynyddion

**Grant Oedolyn Dibynnol**

Gellir talu Grant Oedolyn Dibynnol i fyfyriwr sydd â phartner dibynnol neu oedolyn arall dibynnol. Lle bo’n gymwys, y grant uchaf yn 2023/24 mewn perthynas â phriod fydd £3,322. Pan nad oes gan y myfyriwr bartner, gall y myfyriwr fod yn gymwys am y grant hwn o ran un oedolyn dibynnol nad yw ei incwm net yn fwy na £3,923.

**Grant Gofal Plant**

Mae Grant Gofal Plant yn cael ei ddarparu i helpu myfyriwr cymwys gyda chostau gofal plant yn ystod eu cwrs.

Bydd swm y grant i'w dalu yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £187 yr wythnos am un plentyn, neu £321 yr wythnos am ddau blentyn neu fwy.

Pan nad oes darparwr gofal plant wedi'i nodi, bydd swm y grant gofal plant i'w dalu yn 2023/24 yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £144 yr wythnos. Bydd y taliad cyfradd is hwn yn cael ei wneud nes bod manylion y darparwr gofal plant wedi'u cyflwyno, ac ond yn cael ei dalu am un chwarter academaidd (tymor fel arfer).

**Lwfans/Grant Dysgu Rhieni**

Mae Lwfans/Grant Dysgu Rhieni ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant.

Uchafswm y Lwfans Dysgu Rhieni i'w dalu yn 2023/24 fydd £1,896 gyda'r isafswm yn £52.

**Diystyru incwm dibynyddion**

Mae swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo hawl i Grantiau ar gyfer Dibynyddion. Mae ffigurau diystyru gwahanol yn bodoli ar gyfer cohortau 2012 a 2018.

**Tabl 11: Diystyru incwm ar gyfer Grantiau i Ddibynyddion**

| | Diystyru (£) | |
|---|---|---|
| | Cohort 2012 | Cohort 2018 |
| Dim plentyn dibynnol | 1,180 | 6,272 |
| Ddim yn unig riant, un plentyn dibynnol | 3,537 | 8,629 |
| Ddim yn unig riant, mwy nag un plentyn dibynnol | 4,717 | 9,809 |
| Unig riant, un plentyn dibynnol | 4,717 | 9,809 |
| Unig riant, mwy nag un plentyn dibynnol | 5,904 | 10,996 |

## E3: Grant Teithio

Mae grant teithio ar gael i fyfyrwyr ar gyrsiau meddygaeth neu ddeintyddiaeth ac i fyfyrwyr sy'n astudio neu weithio dramor fel rhan o'u cwrs o dan rai amgylchiadau. Caiff y costau gwirioneddol eu had-dalu, ar ôl tynnu'r swm sy'n cael ei ddiystyru.

Y swm i'w ddiystyru mewn unrhyw asesiad o hawl fydd £303 i bob myfyriwr, ac eithrio myfyrwyr cohort 2018 na asesir eu hincwm neu sydd ag incwm aelwyd o dros £59,200 - yn yr achos hwn mae'r £1,000 cyntaf yn cael ei ddiystyru. Mae hyn yn golygu bod rhaid i fyfyrwyr ariannu eu hunain y £303 neu'r £1,000 cyntaf o'u costau teithio fel y bo'n berthnasol cyn y telir unrhyw grant teithio.

# Adran F

## Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser

### F1: Grantiau i Ddibynyddion (wedi'i ddiwygio i gynnwys bandiau dwysedd astudio)

**Grant Oedolyn Dibynnol**

Gellir talu Grant Oedolyn Dibynnol i fyfyriwr sydd â phartner dibynnol neu oedolyn arall dibynnol. Y grant uchaf yn 2023/24 mewn perthynas ag oedolyn dibynnol fydd £3,322 (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio).

**Grant Gofal Plant**

Mae Grant Gofal Plant yn cael ei ddarparu i helpu myfyriwr cymwys gyda chostau gofal plant yn ystod eu cwrs.

Bydd swm y grant i'w dalu yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £187 yr wythnos am un plentyn, neu £321 yr wythnos am ddau blentyn neu fwy (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio ar gyfer cyrsiau rhan-amser).

Pan nad oes darparwr gofal plant wedi'i nodi, bydd swm y grant gofal plant i'w dalu yn 2023/24 yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £144 yr wythnos (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio). Bydd y taliad cyfradd is hwn yn cael ei wneud nes bod manylion y darparwr gofal plant wedi'u cyflwyno, ac ond yn cael ei dalu am un chwarter academaidd (tymor fel arfer).

**Lwfans/Grant Dysgu Rhieni**

Mae Lwfans/Grant Dysgu Rhieni ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant.

Yr uchafswm i'w dalu yn 2023/24 fydd £1,896 (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser) gyda'r isafswm yn £52 yn dibynnu ar brawf modd.

**Bandiau dwysedd astudio rhan-amser**

O flwyddyn academaidd 2023/24, bydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser yn gymwys i wneud cais am Grantiau i Ddibynyddion (GfDs) wrth astudio ar ddwyster astudio o leiaf 25 y cant o gwrs cyfwerth ag amser llawn. Dyma’r bandiau dwyster astudio a ddefnyddir i gyfrif faint o’r Grant i Ddibynyddion sy'n daladwy:

- 25 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 25 y cant ac yn is na 30 y cant;
- 30 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 30 y cant ac yn is na 40 y cant;
- 40 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 40 y cant ac yn is na 50 y cant;
- 50 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 50 y cant ond yn llai na 60 y cant;
- 60 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 60 y cant ond yn llai na 75 y cant; a
- 75 y cant lle mae’r dwyster astudio ar gyfer y flwyddyn academaidd yn o leiaf 75 y cant neu fwy.

# Adran G

## Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG

Gweler Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am wybodaeth gynhwysfawr.

### G1: Meddygaeth a deintyddiaeth

#### Cyrsiau pedair blynedd

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth ar gael i'r rhai ar gyrsiau mynediad carlam i raddedigion, sy'n gyrsiau pedair blynedd, fel y nodwyd yn nhablau 12 (cymorth ffioedd) a 13 (cymorth cynhaliaeth). Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl blwyddyn academaidd 2012/13.

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth yn cael ei ddarparu gan y GIG a Llywodraeth Cymru (drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru?). Darperir cymorth y GIG ar ffurf bwrsarïau nad oes rhaid eu had-dalu a chymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ffurf benthyciadau i'w had-dalu.

Mae cymorth ffioedd y flwyddyn gyntaf yn cynnwys benthyciad o hyd at £5,785. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ariannu gweddill y ffi dysgu eu hunain. Yn y blynyddoedd dilynol, telir bwrsari'r GIG ac mae benthyciad ar gael i dalu gweddill y ffioedd dysgu.

**Tabl 12: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd)**

| Blwyddyn | Bwrsari ffioedd dysgu'r GIG | Benthyciad ffioedd dysgu |
|---|---|---|
| 1 | Na | Hyd at £5,785 |
| 2 | Hyd at £3,465 | Hyd at £5,785 |
| 3 | Hyd at £3,465 | Hyd at £5,785 |
| 4 | Hyd at £3,465 | Hyd at £5,785 |

Mae cymorth cynhaliaeth yn cynnwys cymysgedd o fenthyciad i'w ad-dalu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a bwrsarïau nad oes rhaid eu had-dalu gan y GIG.

**Tabl 13: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd)**

| Blwyddyn | Benthyciad† | Bwrsari'r GIG | |
|---|---|---|---|
| | | Prawf modd | Dim prawf modd (£1,000) |
| 1 | Cyfradd lawn | Na | Na |
| 2 | Cyfradd is | Ie | Ie |
| 3 | Cyfradd is | Ie | Ie |
| 4 | Cyfradd is | Ie | Ie |

† Gweler tabl 1.

**Cyrsiau pum mlynedd**

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth ar gael i'r rhai ar gyrsiau pum mlynedd fel y nodwyd.

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth yn cael ei ddarparu gan y GIG a Llywodraeth Cymru (drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru). Darperir cymorth y GIG ar ffurf bwrsarïau nad oes rhaid eu had-dalu a chymorth Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau i'w had-dalu a grantiau nad oes angen eu had-dalu.

Darperir cymorth ffioedd o'r flwyddyn gyntaf i'r bedwaredd ar ffurf benthyciad (hyd at yr uchafswm statudol o £9,250). Bwrsari'r GIG nad oes angen ei ad-dalu yw'r cymorth ffioedd yn y bumed flwyddyn.

**Tabl 14: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd)**

| Blwyddyn | Bwrsari'r GIG | Benthyciad† |
|---|---|---|
| 1 | Na | Ie |
| 2 | Na | Ie |
| 3 | Na | Ie |
| 4 | Na | Ie |
| 5 | Ie | Na |

† Gweler tabl 1.

Os oes gan fyfyriwr radd anrhydedd o sefydliad yn y DU ni fydd yn gymwys am gymorth benthyciad ffioedd ar gyfer cwrs pum mlynedd.

Mae myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs meddygol / deintyddiaeth pum mlynedd fel gradd israddedig gyntaf yn gymwys i wneud cais am grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth ar sail prawf modd ym mlynyddoedd 1 i 4 o'r cwrs. Ym mlwyddyn 5 y cwrs, darperir cymorth gan y GIG trwy fwrsariaeth nad yw'n ad-daladwy a gall myfyrwyr hefyd wneud cais am gyfradd is o fenthyciad cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

**Tabl 15: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd)**

| Blwyddyn | Cymorth cynhaliaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru | | Bwrsari'r GIG | |
|---|---|---|---|---|
| | Grant a benthyciad ar sail prawf modd† | Dim prawf modd | Prawf modd | Dim prawf modd (£1,000) |
| 1 | Ie | Amherthnasol | Na | Na |
| 2 | Ie | Amherthnasol | Na | Na |
| 3 | Ie | Amherthnasol | Na | Na |
| 4 | Ie | Amherthnasol | Na | Na |
| 5 | Na | Ie - cyfradd is o fenthyciad cynhaliaeth | Ie | Ie |

† Gweler tabl 1.

Ni ddarperir unrhyw gymorth grant cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau meddygaeth / deintyddiaeth pum mlynedd fel ail radd neu radd israddedig ddilynol, a gallant wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth yn unig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ym mlynyddoedd 1 i 4 o'r cwrs. Ym mlwyddyn 5, bydd cymorth bwrsari'r GIG yn cael ei ddarparu a gall myfyrwyr hefyd ymgeisio am gyfradd is o fenthyciad cynhaliaeth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

## G2: Nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn cynnwys:

- Ceiropodryddion (yn cynnwys Podiatryddion)
- Dietegwyr
- Radiograffwyr
- Gwyddonwyr gofal iechyd
- Parafeddygon
- Therapyddion deintyddol
- Therapyddion galwedigaethol

- Therapyddion Lleferydd ac Iaith
- Hylenwyr deintyddol
- Ffisiotherapyddion

**Astudio yng Nghymru**

Telir ffioedd myfyrwyr nyrsio a myfyrwyr iechyd proffesiynol cymwys eraill sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy’n astudio yng Nghymru yn llawn gan fwrsariaeth y GIG.

Ers 2018/19, rhaid i fyfyrwyr cymwys sy’n astudio yng Nghymru ac sy’n gwneud cais am fwrsari’r GIG ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cymhwyso. Mae’r cymorth ar ffurf bwrsari nad oes rhaid ei ad-dalu gan y GIG. Gall myfyrwyr GIG ar radd gyntaf, gan gynnwys myfyrwyr GIG ar ail radd neu radd israddedig ddilynol, hefyd fod yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth ad-daladwy gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Mae’r benthyciad hwn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfradd is, fel y nodir yn nhabl 16.

Nid yw myfyrwyr cymwys nad ydynt yn ymrwymo i’r ddwy flynedd yn gymwys am fwrsari’r GIG a gallant wneud cais am y pecyn cymorth myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr llawn amser neu ran-amser (gweler adran A neu C), yn amodol ar fodloni’r rheolau astudio blaenorol.

**Tabl 16: Benthyciadau cyfradd is i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy’n astudio yng Nghymru**

| Trefniant byw | Cyfradd is (£) |
|---|---:|
| Cartref rhiant | 4,475 |
| Llundain | 6,815 |
| Rhywle arall | 5,360 |

Gall myfyrwyr fod yn gymwys am grantiau a lwfansau eraill hefyd.

# Adran H

## Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig

### H1: Cwrs meistr

O 1 Awst 2019, gall myfyrwyr sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru, a’r rhai o’r UE sy’n astudio mewn darparwr yng Nghymru, fod â hawl i dderbyn cyfuniad o fenthyciad a grant, fel cyfraniad at gostau, os ydynt yn astudio cwrs gradd meistr ôl-raddedig dynodedig. Nid yw cyfanswm y cymorth sydd ar gael yn dibynnu ar brawf modd ac mae’n cael ei dalu’n uniongyrchol i’r myfyriwr. Mae’r grant yn dibynnu ar brawf modd, gyda swm priodol o fenthyciad ar gael hyd at uchafswm lefel y cymorth sydd ar gael.

Mae’r cymorth sydd ar gael fel a ganlyn:

- Mae grant sylfaenol nad yw’n dibynnu ar brawf modd o £1,000 ar gael i bob myfyriwr cymwys;

- Mae uchafswm grant sy’n dibynnu ar brawf modd o £6,885 (yn cynnwys y grant sylfaenol o £1,000) ar gael i’r rhai ag incwm aelwyd o hyd at £18,370 y flwyddyn. Am bob £6.937 o incwm aelwyd y flwyddyn uwchben y trothwy hwn, bydd £1 o grant yn cael ei golli nes cyrraedd yr isafswm o £1,000;

- Yn ogystal â’r grant, mae benthyciad nad yw’n dibynnu ar brawf modd ar gael i ddarparu cyfanswm cymorth (grant a benthyciad) o hyd at £18,770. Mae swm y benthyciad sydd ar gael yn gyfwerth â chyfanswm y cymorth ar ôl tynnu cyfanswm y grant y mae myfyriwr yn gallu ei gael.

Gall cyrsiau fod yn rhai llawn amser neu’n rhan-amser a rhwng un a tair blynedd o hyd. Mae taliadau’n cael eu gwneud mewn cyfrannau ar draws nifer y blynyddoedd yn y cwrs gradd meistr ôl-raddedig dynodedig.

Bydd y trefniadau cyfredol yn parhau i fyfyrwyr ôl-raddedig parhaus a ddechreuodd eu cyrsiau ym mlwyddyn academaidd 2017/18 neu 2018/19..

Bydd cyrsiau a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2019/20 neu’n hwyrach (h.y. ar neu ar ôl 1 Awst 2019) ond cyn 1 Awst 2023 yn gymwys i gael cymorth ar sail y cyfraddau sy’n berthnasol i’r flwyddyn academaidd y dechreuodd y cyrsiau (h.y. 2019/20,  2020/21, 2021/22 neu 2022/23).

Mae tabl IT7 yn adran I yn dangos symiau’r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

## H2: Doethurol

Mae cymorth ar gael i’r rhai sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy’n astudio yn y DU, a’r rhai o’r UE sy’n astudio mewn darparwr yng Nghymru. Gall myfyrwyr cymwys fenthyg hyd at uchafswm o £28,395 fel cyfraniad at gostau, dros gyfnod y rhaglen ddoethurol. Gall cyrsiau fod yn rhai llawn amser neu’n rhan-amser a rhwng tair ac wyth mlynedd o hyd. Mae taliadau’n cael eu gwneud mewn cyfrannau ar draws nifer y blynyddoedd yn y rhaglen ddoethurol. Mae uchafswm y cymorth sy'n daladwy mewn unrhyw flwyddyn academaidd wedi'i gapio ar 50 y cant, wedi'i dalgrynnu i lawr i'r £5 cyfan agosaf o gyfanswm y cymorth sef £28,395.

Nid yw’r rhai sy’n derbyn cyllid ysgoloriaeth gan unrhyw un o saith Cyngor Ymchwil y DU (boed yn llawn neu ffioedd yn unig) yn gymwys i dderbyn benthyciad. Nid yw’r rhai sy’n derbyn mathau uniongyrchol eraill o gymorth y Llywodraeth ar gyfer costau cynhaliaeth a ffioedd, yn cynnwys unrhyw gyfraniadau cyflog neu ffioedd a ddarperir gan y GIG at ddibenion astudiaeth ddoethurol, yn gymwys. Hefyd, nid yw myfyrwyr sy'n ymgymryd â Gradd Ddoethurol mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd ac sy'n derbyn bwrsari yn gymwys.

Mae cyrsiau sy’n dechrau o flwyddyn academaidd 2018/19 neu’n ddiweddarach (h.y. ar neu ar ôl 1 Awst 2018) ond cyn 1 Awst 2023 yn gymwys i gael cymorth ar sail y cyfraddau sy’n berthnasol i’r flwyddyn academaidd y dechreuodd y cyrsiau (h.y. 2019/20,  2020/21, 2021/22 neu 2022/23).

# Adran I

## Tablau eglurhaol

### Tabl IT1: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd)

| Incwm | Grant | Benthyciad | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| *Cartref rhiant* | | | |
| 18,370 | 6,885 | 3,065 | 9,950 |
| 20,000 | 6,651 | 3,299 | 9,950 |
| 25,000 | 5,930 | 4,020 | 9,950 |
| 30,000 | 5,209 | 4,741 | 9,950 |
| 35,000 | 4,488 | 5,462 | 9,950 |
| 40,000 | 3,767 | 6,183 | 9,950 |
| 45,000 | 3,047 | 6,903 | 9,950 |
| 50,000 | 2,326 | 7,624 | 9,950 |
| 55,000 | 1,605 | 8,345 | 9,950 |
| 59,200 | 1,000 | 8,950 | 9,950 |
| *Llundain* | | | |
| 18,370 | 10,124 | 4,511 | 14,635 |
| 20,000 | 9,760 | 4,875 | 14,635 |
| 25,000 | 8,643 | 5,992 | 14,635 |
| 30,000 | 7,526 | 7,109 | 14,635 |
| 35,000 | 6,408 | 8,227 | 14,635 |
| 40,000 | 5,291 | 9,344 | 14,635 |
| 45,000 | 4,174 | 10,461 | 14,635 |
| 50,000 | 3,056 | 11,579 | 14,635 |
| 55,000 | 1,939 | 12,696 | 14,635 |
| 59,200 | 1,000 | 13,635 | 14,635 |
| *Rhywle arall* | | | |
| 18,370 | 8,100 | 3,620 | 11,720 |
| 20,000 | 7,817 | 3,903 | 11,720 |
| 25,000 | 6,947 | 4,773 | 11,720 |
| 30,000 | 6,078 | 5,642 | 11,720 |
| 35,000 | 5,208 | 6,512 | 11,720 |
| 40,000 | 4,339 | 7,381 | 11,720 |
| 45,000 | 3,469 | 8,251 | 11,720 |
| 50,000 | 2,600 | 9,120 | 11,720 |
| 55,000 | 1,730 | 9,990 | 11,720 |
| 59,200 | 1,000 | 10,720 | 11,720 |

**Tabl IT2: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth i'r rhai sy'n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd)**

| Incwm | Grant | Benthyciad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| *Cartref rhiant* | | | |
| 18,370 | 6,885 | 4,475 | 11,360 |
| 20,000 | 6,651 | 4,475 | 11,126 |
| 25,000 | 5,930 | 4,475 | 10,405 |
| 30,000 | 5,209 | 4,741 | 9,950 |
| 35,000 | 4,488 | 5,462 | 9,950 |
| 40,000 | 3,767 | 6,183 | 9,950 |
| 45,000 | 3,047 | 6,903 | 9,950 |
| 50,000 | 2,326 | 7,624 | 9,950 |
| 55,000 | 1,605 | 8,345 | 9,950 |
| 59,200 | 1,000 | 8,950 | 9,950 |
| *Llundain* | | | |
| 18,370 | 10,124 | 6,815 | 16,939 |
| 20,000 | 9,760 | 6,815 | 16,575 |
| 25,000 | 8,643 | 6,815 | 15,458 |
| 30,000 | 7,526 | 7,109 | 14,635 |
| 35,000 | 6,408 | 8,227 | 14,635 |
| 40,000 | 5,291 | 9,344 | 14,635 |
| 45,000 | 4,174 | 10,461 | 14,635 |
| 50,000 | 3,056 | 11,579 | 14,635 |
| 55,000 | 1,939 | 12,696 | 14,635 |
| 59,200 | 1,000 | 13,635 | 14,635 |
| *Rhywle arall* | | | |
| 18,370 | 8,100 | 5,360 | 13,460 |
| 20,000 | 7,817 | 5,360 | 13,177 |
| 25,000 | 6,947 | 5,360 | 12,307 |
| 30,000 | 6,078 | 5,642 | 11,720 |
| 35,000 | 5,208 | 6,512 | 11,720 |
| 40,000 | 4,339 | 7,381 | 11,720 |
| 45,000 | 3,469 | 8,251 | 11,720 |
| 50,000 | 2,600 | 9,120 | 11,720 |
| 55,000 | 1,730 | 9,990 | 11,720 |
| 59,200 | 1,000 | 10,720 | 11,720 |

## Tabl IT3: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)

| Incwm | Cyfraniad | Grant | Benthyciad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| *Cartref rhiant* | | | | Uchafswm £6,277* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 3,697 | 8,858 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 3,920 | 8,635 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 4,604 | 7,951 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 4,809 | 7,745 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 5,228 | 7,327 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 5,706 | 6,848 |
| 40,000 | 0 | 734 | 5,910 | 6,644 |
| 45,000 | 0 | 393 | 6,081 | 6,474 |
| 50,020 | 0 | 50 | 6,252 | 6,302 |
| 50,753 | 0 | 0 | 6,277 | 6,277 |
| 55,000 | 849 | 0 | 5,428 | 5,428 |
| 58,601 | 1,569 | 0 | 4,708 | 4,708 |
| *Llundain* | | | | Uchafswm £11,357* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 8,777 | 13,938 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 9,000 | 13,715 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 9,684 | 13,031 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 9,889 | 12,825 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 10,308 | 12,407 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 10,786 | 11,928 |
| 40,000 | 0 | 734 | 10,990 | 11,724 |
| 45,000 | 0 | 393 | 11,161 | 11,554 |
| 50,020 | 0 | 50 | 11,332 | 11,382 |
| 50,753 | 0 | 0 | 11,357 | 11,357 |
| 55,000 | 849 | 0 | 10,508 | 10,508 |
| 64,951 | 2,839 | 0 | 8,518 | 8,518 |
| *Rhywle arall* | | | | Uchafswm £8,108* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 5,528 | 10,689 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 5,751 | 10,466 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 6,435 | 9,782 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 6,640 | 9,576 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 7,059 | 9,158 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 7,537 | 8,679 |
| 40,000 | 0 | 734 | 7,741 | 8,475 |
| 45,000 | 0 | 393 | 7,912 | 8,305 |
| 50,020 | 0 | 50 | 8,083 | 8,133 |
| 50,753 | 0 | 0 | 8,108 | 8,108 |
| 55,000 | 849 | 0 | 7,259 | 7,259 |
| 60,890 | 2,027 | 0 | 6,081 | 6,081 |

* Bydd swm y benthyciad y mae myfyrwyr yn gymwys i'w gael lle yn lleihau 50c am bob £1 o grant y mae ganddynt hawl iddo, hyd at uchafswm o £2,580. Yn ogystal, lle mae incwm gweddilliol aelwydydd yn fwy na £50,753, caiff swm y benthyciad ei leihau £1 am bob £5 llawn y mae'r incwm dros £50,753 hyd nes y bydd 75% o'r benthyciad llawn ar ôl.

**Tabl IT4: Hawl i grant cymorth arbennig a benthyciad yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)**

| Incwm | Cyfraniad | Grant | Benthyciad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| *Cartref rhiant* | | | | Uchafswm £6,277* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 6,277 | 11,438 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 6,277 | 10,992 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 6,277 | 9,624 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 6,277 | 9,213 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 6,277 | 8,376 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 6,277 | 7,419 |
| 40,000 | 0 | 734 | 6,277 | 7,011 |
| 45,000 | 0 | 393 | 6,277 | 6,670 |
| 50,020 | 0 | 50 | 6,277 | 6,327 |
| 50,753 | 0 | 0 | 6,277 | 6,277 |
| 55,000 | 849 | 0 | 5,428 | 5,428 |
| 58,601 | 1,569 | 0 | 4,708 | 4,708 |
| *Llundain* | | | | Uchafswm £11,357* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 11,357 | 16,518 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 11,357 | 16,072 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 11,357 | 14,704 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 11,357 | 14,293 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 11,357 | 13,456 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 11,357 | 12,499 |
| 40,000 | 0 | 734 | 11,357 | 12,091 |
| 45,000 | 0 | 393 | 11,357 | 11,750 |
| 50,020 | 0 | 50 | 11,357 | 11,407 |
| 50,753 | 0 | 0 | 11,357 | 11,357 |
| 55,000 | 849 | 0 | 10,508 | 10,508 |
| 64,951 | 2,839 | 0 | 8,518 | 8,518 |
| *Rhywle arall* | | | | Uchafswm £8,108* |
| 18,370 | 0 | 5,161 | 8,108 | 13,269 |
| 20,000 | 0 | 4,715 | 8,108 | 12,823 |
| 25,000 | 0 | 3,347 | 8,108 | 11,455 |
| 26,500 | 0 | 2,936 | 8,108 | 11,044 |
| 30,000 | 0 | 2,099 | 8,108 | 10,207 |
| 34,000 | 0 | 1,142 | 8,108 | 9,250 |
| 40,000 | 0 | 734 | 8,108 | 8,842 |
| 45,000 | 0 | 393 | 8,108 | 8,501 |
| 50,020 | 0 | 50 | 8,108 | 8,158 |
| 50,753 | 0 | 0 | 8,108 | 8,108 |
| 55,000 | 849 | 0 | 7,259 | 7,259 |
| 60,890 | 2,027 | 0 | 6,081 | 6,081 |

**Tabl IT5: Asesiad o gyfraniad aelwyd yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)**

| Incwm | Cyfraniad | Incwm | Cyfraniad | Incwm | Cyfraniad |
|---|---|---|---|---|---|
| 50,753 | 0 | 61,000 | 2,049 | 72,000 | 4,249 |
| 51,000 | 49 | 62,000 | 2,249 | 73,000 | 4,449 |
| 52,000 | 249 | 63,000 | 2,449 | 74,000 | 4,649 |
| 53,000 | 449 | 64,000 | 2,649 | 75,000 | 4,849 |
| 54,000 | 649 | 65,000 | 2,849 | 76,000 | 5,049 |
| 55,000 | 849 | 66,000 | 3,049 | 77,000 | 5,249 |
| 56,000 | 1,049 | 67,000 | 3,249 | 78,000 | 5,449 |
| 57,000 | 1,249 | 68,000 | 3,449 | 79,000 | 5,649 |
| 58,000 | 1,449 | 69,000 | 3,649 | 80,000 | 5,849 |
| 59,000 | 1,649 | 70,000 | 3,849 | 81,000 | 6,049 |
| 60,000 | 1,849 | 71,000 | 4,049 | 81,793 | 6,208 |

**Tabl IT6: Hawl myfyrwyr rhan-amser i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm a dwysedd astudio, cohort 2018 (£oedd)**

| Incwm | Grant | Benthyciad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| *Dwysedd 75%* | | | |
| 25,000 | 4,500 | 1,988 | 6,488 |
| 30,000 | 3,953 | 2,535 | 6,488 |
| 35,000 | 3,404 | 3,083 | 6,488 |
| 40,000 | 2,856 | 3,632 | 6,488 |
| 45,000 | 2,308 | 4,180 | 6,488 |
| 50,000 | 1,759 | 4,728 | 6,488 |
| 55,000 | 1,211 | 5,276 | 6,488 |
| 59,200 | 750 | 5,738 | 6,488 |
| *Dwysedd 50%* | | | |
| 25,000 | 3,000 | 1,325 | 4,325 |
| 30,000 | 2,635 | 1,690 | 4,325 |
| 35,000 | 2,270 | 2,056 | 4,325 |
| 40,000 | 1,904 | 2,421 | 4,325 |
| 45,000 | 1,539 | 2,787 | 4,325 |
| 50,000 | 1,173 | 3,152 | 4,325 |
| 55,000 | 808 | 3,518 | 4,325 |
| 59,200 | 500 | 3,825 | 4,325 |
| *Dwysedd 25%* | | | |
| 25,000 | 1,500 | 663 | 2,163 |
| 30,000 | 1,318 | 845 | 2,163 |
| 35,000 | 1,135 | 1,028 | 2,163 |
| 40,000 | 952 | 1,211 | 2,163 |
| 45,000 | 769 | 1,393 | 2,163 |
| 50,000 | 587 | 1,576 | 2,163 |
| 55,000 | 404 | 1,759 | 2,163 |
| 59,200 | 250 | 1,913 | 2,163 |

**Tabl IT7: Hawl myfyrwyr cyrsiau Meistr ôl-raddedig i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm (£oedd)**

| Incwm (£) | Grant (£) | Benthyciad (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|
| *Cwrs blwyddyn* | | | |
| 18,370 | 6,885 | 11,885 | 18,770 |
| 20,000 | 6,651 | 12,119 | 18,770 |
| 25,000 | 5,930 | 12,840 | 18,770 |
| 30,000 | 5,209 | 13,561 | 18,770 |
| 35,000 | 4,488 | 14,282 | 18,770 |
| 40,000 | 3,767 | 15,003 | 18,770 |
| 45,000 | 3,047 | 15,723 | 18,770 |
| 50,000 | 2,326 | 16,444 | 18,770 |
| 55,000 | 1,605 | 17,165 | 18,770 |
| 59,200 | 1,000 | 17,770 | 18,770 |